# Deddf Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru) 2020

**2020 dsc 2**

*Gwaharddiad ar ddefnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol*

## 4 Ystyr "syrcas deithiol"

(1) Yn y Ddeddf hon, ystyr "syrcas deithiol" yw syrcas sy'n teithio o un man i fan arall at ddiben darparu adloniant yn y mannau hynny.

(2) Mae "syrcas deithiol" yn cynnwys syrcas sy'n teithio fel a grybwyllir yn is-adran (1) at y diben a grybwyllir yno, er bod cyfnodau pan nad yw'n teithio o un man i fan arall.

(3) Er gwaethaf is-adran (1), caiff rheoliadau bennu at ddibenion y Ddeddf hon—

- (a) math o ymgymeriad, perfformiad neu adloniant sydd i'w ystyried yn syrcas deithiol;
- (b) math o ymgymeriad, perfformiad neu adloniant nad yw i'w ystyried yn syrcas deithiol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 4 mewn grym ar 1.12.2020, gweler **a. 12**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru) 2020, Adran 4.